# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 29 Ionawr 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn dilyn ei ateb i WAQ31491, a wnaiff y Prif Weinidog ddweud beth oedd canlyniad y trafodaethau hynny. (WAQ31743)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gasglu gwybodaeth am yr ystadegau o ran nifer a chyfanswm erwau y datblygiadau adeiladu a ganiatawyd ar gaeau chwarae yng Nghymru ac a wnaiff gyhoeddi'r wybodaeth honno yn flynyddol. (WAQ31741)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae'r ystadegau o ran nifer a chyfanswm erwau y datblygiadau adeiladu a ganiatawyd ar gaeau chwarae yng Nghymru yn cael eu casglu a sut mae'r broses honno yn cymharu â'r broses o gasglu'r ystadegau yn Lloegr. (WAQ31742)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisïau cynllunio y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. (WAQ31712)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ceisiadau i adeiladu ar gaeau chwarae yng Nghymru. (WAQ31715)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i atal mwy o achosion o'r afiechyd phytophthora ramorum mewn coed. (WAQ31713)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gost i'r Cynghorau yn sgil agor holl lwybrau troed Cymru. (WAQ31714)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i roi iawndal i'r ffermwyr hynny yn y Canolbarth yr effeithiodd pydredd cylch mewn tatws arnynt y llynedd. (WAQ31716)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno deddfwriaeth er mwyn cyflymu'r broses o gael gwared ar geir sydd wedi'u gadael yng Nghymru.

(WAQ31717)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar TAN 15 a Datblygu ar Orlifdir. (WAQ31718)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i annog compostio. (WAQ31726)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa ganran o wastraff Cymru a gaiff ei waredu mewn safleoedd tirlenwi. (WAQ31727)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynigion i leihau gollyngiadau Carbon Monocsid. (WAQ31728)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith o osod mastiau Cyfathrebu TETRA yr Heddlu. (WAQ31729)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes gan y Gweinidog unrhyw fwriad i sefydlu cynllun i newydd-ddyfodiaid ifanc. (WAQ31730)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost siambr drafod newydd y Cynulliad. (WAQ31719)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gaffael plotiau tir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ31722)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar leoliad swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad yn y Gogledd. (WAQ31720)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud beth fydd cost y celfi a’r offer yn adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ31721)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch prynu’r tir sydd yn ymyl y Cynulliad. (WAQ31723)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu’r gyllideb ar gyfer portffolio Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. (WAQ31724)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gynyddu’r gyllideb ar gyfer y portffolio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. (WAQ31725)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion yn Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth yr Alban ynghylch creu setliad ariannu sy'n seiliedig ar angen. (WAQ31731)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r rheolau ynghylch gwario'r arian ychwanegol a fydd yn dod i Gymru o ganlyniad i ddatganiad rhag-gyllidebol y Canghellor. (WAQ31732)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithiau polisi ariannol Llywodraeth y DU ar Gymru. (WAQ31734)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith cyllideb 2004/5 ar awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru. (WAQ31733)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Ddogfen Ymgynghori Arfarnu NICE: *Technologies for the prevention and treatment of osteoporotic fractures in postmenopausal women*. (WAQ31735)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith neu effaith debygol y dangosyddion rhagnodi lefel uchel (cyffuriau triongl du) ar y broses o ddechrau defnyddio cyffuriau newydd. (WAQ31736)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sydd wedi'i wneud i weithredu argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol: Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol. (WAQ31737)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** O dan reoliadau newydd NICE, pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r broses o ddechrau defnyddio cyffuriau newydd. (WAQ31738)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian sydd wedi'i roi i Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol y De-ddwyrain i fynd i'r afael â'r rhestrau aros orthopedig yn yr ardal honno. (WAQ31739)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y bartneriaeth a'r deialog rhwng GIG Cymru ac is-grwpiau Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain ac is-grwp y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Diabetes yn arbennig. (WAQ31740)

## *Gofyn i gynrychiolydd o Bwyllgor y Ty*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y cynrychiolydd o Bwyllgor y Ty restru'r holl achlysuron lle bydd cyfarfodydd y Cynulliad yn cael eu cynnal yn y Gogledd. (WAQ31744)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A oes gan y Cynulliad unrhyw gynlluniau i gynnal unrhyw gyfarfodydd yn Lloegr o ganlyniad i broblemau gydag adeiladau yn y Gogledd. (WAQ31745)